# Trawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (TraCE) Pecyn Cymorth Sefydliadau Gwybodussy'n Ystyriol

## Adolygiad Parodrwydd Gweithredu

Enw'r sefydliad: Wedi'i gwblhau erbyn: Dyddiad:

| **Adolygiad Parodrwydd Gweithredu** | **Awgrymiadau / Syniadau defnyddiol** | **Sylwadau:** |
|---|---|---|
| Mae strategaeth a chynnwys polisi'r sefydliad yn nodi'r achos dros wreiddio arferion sy'n Ystyriol o Drawma ac yn Ymwybodol o ACE. | Ymgysylltwch ag uwch arweinwyr i ddeall sut mae'r dull Ystyriol o Drawma ac Ymwybodol o ACE yn cyd-fynd â chyd-destun strategaeth a pholisi'r sefydliad. | |
| Ceir cymorth gan arweinwyr ac uwch arweinwyr o'r cychwyn cyntaf cyn i'r sefydliad ddechrau ar y daith hon. | Mae'r dull hwn yn gofyn am ymrwymiad hirdymor i newid, a chyflawnir hyn yn llwyddiannus gyda chymorth yr arweinwyr a'r uwch dimau rheoli sy'n deall yr ymrwymiad adnoddau ac sy'n barod i roi newid ar waith. | |

| | | |
|---|---|---|
| Mae yna weithgor / grŵp llywio wedi'i nodi i ddarparu cymorth ac arweiniad sy'n cynnwys trawstoriad o bobl ar bob lefel o'r sefydliad. | Enghreifftiau o rolau y gall fod yn ddefnyddiol eu cynnwys o'r cychwyn yw:<br>• AD/Rheolwyr Hyfforddiant<br>• Ystadau (staff glanhau, diogelwch)<br>• Staff gweithredu a darparu gwasanaeth<br>• Uwch Arweinydd<br>• Rheolwyr adrannau sy'n cynrychioli'r sefydliad<br>• Cyfathrebu a marchnata<br>• Pobl sydd â phrofiad bywyd o'r sefydliad | |
| Mae strategaeth gyfathrebu ac ymgysylltu wedi'i hystyried. | Ystyriwch sut y bydd y sefydliad yn:<br>• Hysbysu staff o'r hyn sy'n digwydd.<br>• Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt wrth i'r broses fynd rhagddi.<br>• Darparu cyfleoedd i gymryd rhan.<br>• Darparu'r naratif cyfathrebu allanol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Enghreifftiau o rolau y gall fod yn ddefnyddiol eu cynnwys o’r cychwyn yw:<br>• Arianwyr<br>• Cyfranddalwyr<br>• Buddsoddwyr<br>• Y rhai sy'n darparu'r gwasanaeth<br>• Y rhai sy'n derbyn y gwasanaeth | |
| Mae adnoddau wedi'u hystyried. | Rhai ystyriaethau ar gyfer adnoddau yw:<br>• Amser a sgiliau staff - mae'r broses hon yn gweithio orau os caiff ei harwain gan rywun sydd â phrofiad o reoli prosiectau a newid a swydd yn y sefydliad a all effeithio ar newid<br>• Amser a sgiliau arwain cydweithredol<br>• Cyfathrebu<br>• Hyfforddiant | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Newidiadau ffisegol i amgylcheddau<br>• Cymorth staff ar gyfer lles<br>• Monitro a gwerthuso i gefnogi cynaliadwyedd a chynllunio ar gyfer y dyfodol | |
| Mae amserlenni wedi'u hamlinellu a chytunwyd arnynt ac mae ystyriaeth i'r hirdymor, cynaliadwyedd a chynllunio ar gyfer y dyfodol | Argymhellir y dull CAMPUS (Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig, ac Wedi'i gyfyngu gan amser). | |